TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma mewn Astudiaethau Galwedigaethol â€“ Busnes, Gwasanaeth Cwsmer a TGCh Lefel 1



**Yn gryno**

Mae ein Cyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol wedi eu dylunio i’ch cyflwyno i faes astudiaeth sydd o ddiddordeb i chi a’ch helpu i ddatblygu sgiliau dysgu ehangach.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn ansicr beth i’w wneud neu beth i arbenigo ynddo

... Ydych eisiau profi mwy nag un maes galwedigaethol

... Ydych eisiau cael profiad gwych o fywyd coleg

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd y cwrs yma yna roi ystod o gyfleoedd dilyniant i chi gan gynnwys dysgu pellach yn y coleg ar un o’n cyrsiau ar y lefel nesaf, prentisiaeth neu gyflogaeth!

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cewch gyfle i brofi mwy nag un maes galwedigaethol a datblygu sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy drwy gwblhau tasgau sy'n canolbwyntio ar ddangos beth allwch ei wneud a'r hyn rydych wedi ei ddysgu. Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ac asesiadau ymarferol.

Mae'r unedau craidd yr un fath ar draws ein holl gyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol sy'n eich helpu i ddatblygu eich sgiliau o fewn y maes rydych wedi ei ddewis. Os byddwch am newid i gwrs gwahanol, gallwch drosglwyddo'r unedau sydd wedi eu hastudio ar y cwrs i'ch cwrs nesaf os oes angen.

Bydd yr unedau craidd yn cynnwys:

Bod yn drefnus
Datblygu cynllun cynnydd
Gweithio gydag eraill
Ymchwilio i bwnc

Gall yr unedau Busnes, TGCh, Teithio a Thwristiaeth a Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys:

Datblygu Gwybodaeth Ddigidol gan Ddefnyddio TG
Defnyddio Technolegau Cyfathrebu Digidol
Creu taenlen i Ddatrys Problemau
Creu Gwefan
Trefnu Cyfarfod
Brandio Cynnyrch
Cyflwyno Syniad Busnes
Cyfrannu tuag at gynnal Digwyddiad
Cofnodi Incwm a Gwariant
Cyfathrebu gyda Chwsmeriaid
Cymryd rhan mewn profion ffitrwydd
Ymateb i Ddigwyddiad
Cynllunio ac Arwain Taith
Cyfrannu at eich Cymuned
Archwilio Atyniadau Lleol i Ymwelwyr
Archwilio Teithio a Thwristiaeth yn y DU
Darparu Gwasanaeth Cwsmer mewn Lletygarwch a Thwristiaeth

Pa gymwysterau y byddwch yn eu cael

BTEC Diploma Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gweithgareddau

Mathemateg a Saesneg (os na fu i chi gael gradd C neu uwch yn y pynciau yma ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set o sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Does dim lefel mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs. Er hynny, mae'n hanfodol bod gennych ddiddordeb dysgu am y meysydd galwedigaethol gwahanol. Bydd angen i chi fod yn barod i weithio ac yn fodlon rhoi cynnig ar bethau newydd. Bydd yna ddisgwyliad eich bod yn ymarfer sgiliau a thechnegau mewn amgylcheddau gwaith realistig yn y coleg a fydd yn eich galluogi i wella eich sgiliau cyflogadwyedd. Mae mynychu pob sesiwn a bod yn brydlon yn orfodol ar gyfer y cwrs yma.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gallwch barhau gyda'ch astudiaethau ar Lefel 2 mewn maes galwedigaethol o'ch dewis
Gallwch fynd ymlaen i brentisiaeth
Gallwch gael swydd mewn maes rydych wedi ei ddewis

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Gall costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.